"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] TACHWEDD, 1882. [RHIF 15.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Y Gwyliedydd, beth am y nos?	337
Deddf a Dadblygiad	344
Crefydd y Duc Wellington	346
Cangen Anffrwythlawn	347
Yr Ochr Euraidd	348
Syrthiad y Ddalen	349
Addoliad Cyhoeddus	351
Beth Gostiodd	355
Pigion allan o Weithiau George Eliot	355
Gohebiaethau	356
Manion a Hanesion	357
Marwgofion	358
Barddoniaeth	359

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:
ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] TACHWEDD, 1882. [RHIF. 15.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

Y GWYLIEDYDD, BETH AM Y NOS?*

ESAIAH XXI. 11.

* * * * *

Yn yr hen amser safai y gwyliedydd ar ei dwr o wyliadwriaeth i roddi rhybudd o ddynesiad y gelyn at gaerau'r dref; safai yn y maes i amddiffyn y llafuriau a'r gwinllanoedd; ac yn amser rhyfel safai ar y mynydd a chyneuai ei dânau i anfon ei rybuddion dros fryn a dyffryn. Mae y ffermwr o hyd yn gorfod actio'r gwyliedydd, ac yn fynych y nos yn ceisio barnu sut foreu fydd. Y gwleidyddwr, mae yn bwrw golwg eang dros y byd, a charai yn awr fod yn alluog i benderfynu beth fydd dyfodol y cythrwfl yn yr Iwerddon neu yr Aifft; a'r duwinydd yntau mor falch fyddai ganddo wybod beth ddaw o'r holl gymmysgedd presenol yn y byd crefyddol. Mae credoau o hyd yn myned yn hen ac yn rhoddi ffordd i rai newyddion. Megys yn y dyddiau gynt y darfu i hen gyfundrefnau Groeg a Rhufain dori i fyny a rhoddi lle i rywbeth gwell, felly mewn amseroedd diweddarach mae pynciau a fuont unwaith yn cael eu hystyried yn brif bynciau yn myned o'r golwg. Nid oedd y pagan gynt o angenrheidrwydd yn gwneuthur yn gyhoeddus ei fod yn rhoi ei eilun i fyny, ac yn anfynych y cawn ni y Cristion yn ffurfiol yn rhoi i fyny fanau ei ffydd. Er enghraifft, dyna Etholedigaeth Ddiamodol, a Syrthiad oddiwrth Ras, faint o ddadleu fu unwaith yn yr Eglwysi mewn perthynas i'r pynciau hyn fel pe byddent bynciau Iachawdwriaeth, tra yn awr nid ydynt braidd yn cael un sylw yn un

* Adgofion o'r bregeth a draddodwyd yn y Cyfarfod Blynyddol yn Mhantydefaid, Mehefin 22ain, 1882, gan R. J. J.

man. Ac nid yn hir dybygwn y gellir dal wrth hen athrawiaeth y Llwgr Gwreiddiol, yn ngwyneb addysgiadau Lyell a Darwin. Mae y "Survival of the Fittest," deddf "Goroesiad yr Addasaf," yn rheoli cyfnewidiadau crefyddol hefyd, a'r anmherffaith o hyd yn gorfod rhoddi ffordd pan welir y perffeithiach.

Rheol yr hen amser oedd Trechaf treisied, gwanaf gwaedded. Dysgai Hobbes, athronydd Malmesbury, fod cymdeithas yn seiliedig ar yr egwyddor hon; fod dynion wedi ymffurfio yn gymdeithasau er mwyn hunan-amddiffyniad. Gwaedd y ddeunawfed ganrif oedd Breiniau Dyn—fod gan bob dyn ei hawliau personol. Dyna bwnc mawr Voltaire a Volney a Rousseau, a diffyg cydnabyddiaeth o'r egwyddor hon a fu'n achos o'r Chwyldroad yn Ffrainc (1789). Yr oedd y syniad yn un cywir, yn un gogoneddus, ac yn un a ddaeth yn boblogaidd iawn ar unwaith. Ymledodd dros brif wledydd Ewrop, a chawn ei fod wedi cyffwrdd â chalon a llenyddiaeth ein gwlad ein hunain, nid Lloegr yn unig ond Cymru hefyd.* Ond er fod y syniad yn un cywir, syniad unochrog oedd. Ni ellir sefydlu cymdeithas yn ddyogel ar y syniad hwn. Tra fyddo dyn yn dal ar ei hawliau ei hunan, ei hawliau personol, heb feddwl am hawliau ereill, mae yn arwain nid i undeb ond i ymraniad. Ni fydd chwyldroadau a ddygir oddiamgylch mewn ufudd-dod i'r syniad yma ond yn effeithiol i symmud ymaith un gormeswr i osod un arall yn ei le. Mae Mazzini, athraw Garibaldi, yn welliant ar Voltaire, a gesyd ef y pwys, nid ar *Freiniau* ond ar *Ddyledswyddau* dyn. Yr ystyriaeth fod gan ereill hawliau yn ogystal â ni ein hunain yw yr un a bair i ormes a drygau cymdeithasol ddiflanu. Dyma hefyd egwyddor yr hen lyfr, dyma addysg Cristnogaeth—aberthu hunan er lles arall, gwneuthur i ereill fel y dymunem i ereill wneuthur i ninau. Dyma y rheol euraidd.

Yn ei Hanes Gwareiddiad mae Buckle yn dal fod pob dygwyddiad yn dybynu ar ddeddf anocheladwy, tra mae Carlyle o'r tu arall yn gosod y pwys mwyaf ar yr elfen bersonol, ar nerth annibynol cymmeriad dyn. Gyda rhai *environment* yw y cwbl. Gair mawr ydyw hwn mewn Darwinaeth, er nad ydym yn credu fod Darwin ei hunan yn gwneuthur yr *environment* i gyfrif am bob peth. Gallwn feddwl fod Parker newydd fod yn darllen Buckle pan y ceisiai wneuthur allan mai ei *environment*—ei amgylchiadau allanol, y man y ganwyd ef, a'r amgylchiadau y dygwyd ef i fyny ynddynt—wnaeth Columbus y peth oedd. Mae llawer yn dal syniad tebyg. "Mae rhai," meddai Carlyle, "pan welont ryw arwr (*hero*), rhyw ddyn tu hwnt i'r cyffredin, yn union yn ceisio cyfrif am dano. Gosodant eu hofferynau i lawr er mwyn cymmeryd ei bwysau a'i fesur." "Y man y ganwyd Channing a wnaeth Channing," meddai rhywun. Y lle ydyw pob peth, nid yw yr elfen bersonol yn ddim. Ond meddai Martineau, y mae cannoedd ereill wedi eu geni lle ganwyd Channing, eithr dim ond un Channing. Paham dim ond un?

---

* Mae hyd y nod ein hemynau wedi teimlo y dylanwad. Darllener 336 yn Emynau Mawl a Gweddi.

Gweled yr ydym yn awr trwy ddrych, mewn dammeg; gweled yn rhanol iawn ydym. Mae dynion yn gweled un wyneb i'r gwirionedd ac yn tybied mai hwnw yw y cwbl. Gadawant rai o'r *factors*, rhai o'r rhanau cyfansawdd pwysicaf yn ddisylw. Gesyd yr *analyst* ddarn o lysieuyn yn ei lestr, ac wedi ei ddadansoddi mae yn cael yno y Carbon, Hydrogen, Nitrogen, Phosphorus, &c., ac yn casglu fe allai mai dyna y cwbl sydd yno. Gesyd ddarn o ffowlyn yno gyda'r un canlyniad—Carbon, Hydrogen, Nitrogen, Phosphorus, &c. A ydyw y casgliad yn deg mai dyna y cwbl sydd yno? A oes dim gwahaniaeth gan hyny rhwng ffowlyn a llysieuyn? Onid teg y casgliad fod yno rywbeth arall, sydd yn gwneuthur y gwahaniaeth? Ai dyma yr unig *factors* C ac H ac N a P, &c.? Yna, pa le mae achos y gwahaniaeth? Mae yna x, neu *unknown quantity*, yn eisieu. Rhaid yw wrth *fywyd*, rhaid yw wrth *enaid*, ac wrth yr hyn a eilw Emerson yr *Oversoul*; C + H + N + P + x, neu C + H + N + P + Bywyd neu Enaid neu *Oversoul*.

Pan yn bwrw golwg ar *Steamer* yn gadael y porthladd, nid ydym i feddwl ein bod wedi esponio yr oll pan wedi darlunio y llestr, y peiriant a'r ager yn unig, heb son dim am y meddwl sydd wedi bod tucefn i'r cwbl; a phan yn bwrw golwg ar natur—ar olyniaeth reolaidd y tymhorau, treigliad y planedau, gweithrediad dirgel deddfau anian, a allwn ni feddwl am foment fod yr oll wedi eu hesponio, hyd oni byddont wedi eu cyssylltu â meddwl? Nid yn aml y mae neb yn tybied hyny. Y mae dyn rywfodd yn wastad, yn mhob oes ac yn mhob gwlad, yn cael ei arwain i gydnabod "yr yspryd sydd uwchlaw." Ymddengys fel pe byddai cyffyrddiadau cyntaf meddwl annadblygedig dyn â natur yn tueddu i gynnyrchu braw, wedi hyny rhyfeddod. Rhywbeth tebyg i hyn y mae Proffeswr Newman yn olrhain y dadblygiad—braw, rhyfeddod, edmygedd, gallu, trefn, bwriad, doethineb, parch, &c. Ac y mae y rhai hyn oll yn golygu *meddwl*. Matter originates in mind, not mind in matter. Mae defnydd yn cael ei ddechreuad mewn meddwl, nid meddwl mewn defnydd. A'r meddwl hwn, onid yw yn awgrymu deall—gallu llywodraethol deallus—Duw, Tad? Onid yw yr holl fyd yn dwyn nodau doethineb a threfn?—yr oll mor bell ag y mae y meddwl dynol meidrol yn gallu ei amgyffred. Fel hyn y dywed Islwyn,

> "Mae y byd
> I gyd yn gyssegredig a phob ban
> Yn dwyn ei gerub a'i dragwyddol gainc."

Onid yw hwn yn wirionedd ardderchog sydd wedi bod yn guddiedig yn rhy hir?—"Y byd i gyd" ac nid rhyw lain cul o dir yma a thraw—nid yr Aifft, nâ Chanaan, nâ glanau'r Ganges yn unig; a phawb dynion yn bobl gofal ac yn blant cariad a thosturi y Tad Goreu—y Groegwr fel yr Iuddew, y caeth fel y rhydd, yr Hottentot yn ogystal a'r Cristion. Nid yw ei dosturi ef yn cael ei gyfyngu i unrhyw sect na chredo yn y byd, ond y mae pob sect yn nhrefn ei ragluniaeth Ef yn cario allan ryw ran o'i waith yn y byd. Mae holl ffurfiau amrywiol meddwl, credo, crefydd, yn byw yn mhob man yn rhinwedd rhyw dda, rhyw wir sydd ynddynt; a phob sect newydd yn ymddangos yn cael ei bodolaeth a'i nerth megys

wrth osod pwys ar ryw syniad, rhyw wirionedd, fyddo wedi ei annghofio gan ddynion, neu wedi myned yn ddisylw ganddynt. Yr oedd Esgob Temple yn ei draethawd nodedig ar Addysgiaeth y Byd (*Essays and Reviews*) yn addef fod Groeg a Rhufain, fel gwlad Canaan, wedi cyfranu eu rhan yn helaeth at wareiddiad Ewrop, ac y mae hyny yn wir; ond, y mae y wyddor newydd "Duwinyddiaeth Gymhariaethol" yn cydnabod fod yr holl grefyddau, crefydd yr Aifft, China, India, Persia, Twrci, &c., oll wedi chwareu eu rhan i addfedu gwareiddiad y byd—oll yn ol mesur eu gwerth a'u gwirionedd ysprydol yn ysgolfeistriaid at Grist. Fe genfydd yr annghyfarwydd y seiniau annghydgordiadol (*discords*), fe welwn ni ddiffygion y gwahanol enwadau feallai, gallwn ni ferniadu gweithrediadau Byddin Iachawdwriaeth, fel ei gelwir, ond y mae y Pen Cerddor mawr yn gallu gweled y da yn yr oll, a'r modd mae yr holl seiniau amrywiol yma, fel y maent yn dylifo o'u gwahanol gyfeiriadau yn cael eu cymmeryd i mewn i chwyddo cydgan ogoneddus anthem bywyd.

Mae rhai o Esgobion Cymru yn teimlo yn bryderus iawn yn nghylch sefyllfa bresenol crefydd. Carem oll weled gwell llewyrch ar y byd crefyddol, a mwy o ol egwyddorion crefydd ar fywyd y byd yn gyffredin. Credwn mai goreu pa fwyaf yr ymdrechion a wneir ar bob tu o blaid crefydd. Tybia'r Esgobion fod perygl mawr yn nghyfeiriad yr addysg a gyfrenir yn yr ysgolion elfenol, ac yn enwedig yn y ffaith nad yw crefydd dan yr enw hwnw o leiaf ddim yn cael lle yn addysg ddyddiol ein gwlad. Priodolant ran fawr o anffyddiaeth yr oes i hyn; a'r feddyginiaeth yn eu golwg hwy fyddai cael y catecismau a'r credoau i mewn. Ond yn ngwyneb yr amrywiaeth barn sydd yn ffynu yn ein gwlad, y mae hyn yn anmhosibl, ac os yw y diffyg i gael ei wneuthur i fyny, rhaid yw i'r enwadau trwy eu gwahanol gyfryngau, yr Ysgol Sul yn enwedig, wneuthur pob ymdrech i gyfarfod ag angenion ysprydol yr ieuainc.

Fodd bynag, er cymmaint y cymmysgedd ymddangosiadol yn y byd crefyddol, o'r braidd yr wyf yn credu ei fod yn arwyddocaol o leihad mewn ffydd. Credaf yn hytrach ei fod yn arddangosiad o fwy o ffydd, a mwy o ddyddordeb cyffredinol mewn pethau crefyddol. Ni wnaethpwyd erioed fwy o aberth dros grefydd nag a wneir yn awr. Onid yw y lluosogiad mawr sydd yn cymmeryd lle o hyd mewn eglwysi a chapeli, y casgliadau a wneir at ein Hyspyttai bob blwyddyn ar *Hospital Sunday*, y *demand* aruthrol fu ychydig yn ol am y Testament Newydd Diwygiedig, a'r ffaith fod mwy o werthu ar lyfrau duwinyddiaeth nag ar un math arall o lyfrau, yn arwyddocau fod dyddordeb dwfn yn cael ei deimlo mewn pob peth sydd yn dal perthynas â chrefydd?

Ein Dyledswydd

ninau fel enwad, yn nghanol y cymmysgedd cyffredinol, a'r dyhead amlwg a geir o bob cyfeiriad am fwy o oleuni, yw dal i fyny yn ngwydd y byd ffydd syml a rhesymol, ffydd fyddo'n gysson a'r wybodaeth uwchaf ag a wyddom am dani. Mae y plentyn fel y mae yn tyfu i fyny yn gofyn o hyd am wisgoedd newyddion, a dylai y dyn gyfaddasu ffurf ei

ffydd o bryd i bryd at sefyllfa ei wybodaeth. Tuedd ofergoeliaeth, a dal wrth syniadau ydynt wedi eu gordyfu a'u gwisgo allan, yw creu annghrediniaeth. Dywedir mai Ffrainc yw y wlad fwyaf ofergoelus yn y byd, ac wrth bob tebyg hi hefyd yw y wlad fwyaf anffyddol, er fod Spaen a'r Eidal feallai yn dra chyffelyb. Yn lle diwygio eu credoau mae lluaws yn y gwledydd yna yn eu gwrthod yn gyfangwbl. Holwn ein hunain sut y cydsaif ein credoau a darganfyddiadau diweddar? A allwn ni *ffitio* addysg y gwyddorau a'u cyssoni â'n duwinyddiaeth fel y mae? Os yw ein ffydd i fyw, ac i fod yn elfen werthfawr yn ein bywyd, rhaid iddi o hyd wrth wisg fyddo'n *ffitio*, un fyddo'n addas i sefyllfa newydd ein gwybodaeth. Os oes rhaid gollwng rhai hen syniadau ar ol, tebyg iawn mai allanolion fyddant. Na fydded i ni ofni yn ngwyneb lledaeniad gwybodaeth. Ni fydd lledaeniad gwybodaeth ond lledaeniad gwirionedd a goleuni yn y diwedd. Peidiwn digaloni, meithrinwn ffydd, glynwn wrth obaith. Os yw pethau yn ymddangos yn dywyll i ni, cofiwn fod i'r cwmwl tywyllaf ei ymyl goleu. Trodd galargan Jacob, "Yn fy erbyn i mae hyn oll," yn gân gorfoledd "Digon yw," &c., yn gynt nag oedd efe yn dysgwyl.

> "Y saint un niwed fyth ni chant, Cymmylau dua'r nen
> Sy'n llawn trugaredd, gwlawio wnant Fendithion ar eu pen."

Ni ddichon y gwirionedd ddyoddef dim oddiwrth ledaeniad gwybodaeth. Er i'r credoau orfod newid, rhaid i'r gwirionedd barhau.

Edrychir ar fywyd megys mordaith; 'nawr mae pob morwr doeth yn studio'r *map* fel y gallo gyfeirio ei long yn iawn, a phan ddelo y morwr adre o'i grwydriadau pellenig, gofyniad cyntaf ei gyfeillion a'i berthynasau yw, nid pa le mae wedi bod, ond sut y mae; nid mewn perthynas i'r daith, ond mewn perthynas iddo *ei hunan*. Yn marchnad Chicago, yr hon yw y farchnad lafur fwyaf yn y byd, nid yw yr holi gymmaint mewn perthynas i'r man y tyfodd y gwenith neu'r ceirch, nac mewn perthynas i'r ffordd y dygwyd ef ar hyd-ddi i'r farchnad; ond yn hytrach pa fath wenith neu pa fath geirch yw, beth yw *quality* y llafur ei hunan. Yr un modd mewn perthynas i ddyn ei hunan, y gofyniad mwyaf pwysig yn awr yw, ac a fydd yn wastadol, nid pa enwad neu sect y mae yn perthyn iddo, nid o ba deulu y mae yn hanu, nid beth yw ei gyfoeth, ond *beth yw*—beth yw efe ei hunan, beth yw ei gymmeriad neu ei garitor. Dyma'r peth mawr sydd yn perthyn i ddyn a'r peth uwchaf iddo ymestyn am dano—sef caritor da, a phan ddeuwn i'r byd nesaf, y gofyniad fydd nid Beth sydd genym, ond *Beth ydym?*

Chwi bobl ieuainc, beth ydyw *key note* eich bywyd? Mae gan y canwr ei *key note*, ac mae cadw hwnw yn dda o fewn gafael yn foddion i helpu yn yr iawn gyfeiriad. Bydded genych amcanion uchel mewn bywyd. *Aim high.* Fe wneir rhywbeth felly. Bydd yr amcanu am y cywir, am y pur, y sanctaidd, yr hawddgar, yn sier o helpu yn y cyfeiriad iawn. Meddai Shakespeare:

> This, above all, to thine own self be true;
> And it must follow, as the night the day,
> Thou canst not then be false to any man.

Nid ein llinach sydd yn bwysig ac nid ein henwad, ond beth y mae y rhai hyn wedi ein helpu iddo—beth yw ein bywyd, beth yw ein gwaith.

"Honour and shame from no condition rise,
Act well your part, there all the honour lies.

"Mae'r hwn a wnel y goreu ag a allo,
Yn gwneyd yn dda, yn gwneyd yn ogoneddus,
Nis gall angylion nefoedd wneyd yn well."

"Cyflawnu'r ddyledswydd nesaf at law" yw y peth pwysig, meddai Carlyle ar ol Goethe. Cyflawner hwnw, ac fe fydd y ddyledswydd nesaf eisoes yn fwy amlwg ac yn fwy hawdd. "Gwnawn dda" meddai Emerson, "ac fe fydd yr Arglwydd gyda ni." Bydd holl ddylanwadau bendigedig nefoedd a daear yn cydweithio â ni yn ein hymdrechion am yr hyn sydd dda. A chynghor yr hen lyfr yw, Peidiwch a gwneuthur drwg, dysgwch wneuthur daioni. Pan welodd y morwr gynt gyd-ddyn yn mron boddi, darfu iddo ar unwaith geisio ei achub. Yr oedd yn teimlo mai dyma'r ddyledswydd nesaf at law iddo ar y pryd, a phan awgrymodd cyfaill ar bwys wrtho, "Aroswch, a ydych yn barod i farw?" Ei ateb gogoneddus cyn taflu ei hunan dros y bwrdd i'r môr oedd, "Ni ddeuaf yn fwy addas trwy esgeuluso y ddyledswydd hon." *Right noble* oedd yr ymddygiad hwn, ac nad beth oedd diffygion y morwr mewn cyfeiriadau ereill, yr oedd y weithred hon yn ddiau yn help iddo i deilyngu y gwahoddiad "Da was, da a ffyddlon," &c. Os oes bywyd arall i fod nid oes un parotoad mwy ardderchog ar ei gyfer nâ bywyd o hunan-aberth; ac os nad oes, nid oes un farwolaeth yn fwy gogoneddus nag un a ddaw ar ddyn yn y cyflawniad o ddyledswydd fel eiddo y morwr.

Syniad trist yr ymddengys eiddo Proff. Clifford i mi mewn perthynas i'r pwnc hwn, ac yr ydys wedi ceisio anfarwoli y syniad trwy ei feddargraff. Credai ef nad oes dim mwy yn aros o'r dyn ar ol ei farw nag sydd yn aros o'r gerddoriaeth ar ol i'r piano gael ei dori i fyny. Dymunwn awgrymu yn ostyngedig fodd bynag mai nid yn y piano y mae y gerddoriaeth, ond yn hytrach yn y chwareuydd neu ynte yn y cyfansoddydd. Na, na, nid y piano sydd yn gwneuthur y miwsig, ac yr ydym yn gobeithio er i ddyn basio trwy y cyfnewidiad a elwir marwolaeth, nad ydyw wedi hyny yn darfod a byw. "I ba beth yr ymdrafferthwn yn nghylch y bywyd arall" meddai Emerson, "ni a'i cawn os byddwn yn ei *haeddu*." Y mae yr ateb yn barod, A allwn ni oddiwrth yr ymdrafferthu yma? Mae edrych yn y blaen mor naturiol i ddyn. Y gobaith yma, y dyhead dibaid yma, onid yw yn blanedig yn ein natur? Ac felly i raddau ac yn gymmedrol y mae yn gyfiawn, ac yn sicr mae yn fynych lawer o ddedwyddwch yn y rhagolwg. Ond ni ddylai y rhagolwg yma mae'n wir ein haflonyddu yn y cyfryw fodd ag i'n hanalluogi ar gyfer dyledswyddau y presenol. Fe dybia y Parch. Stopford Brooke mai meddwl Emerson yw, na ddylem ni ddim gyru ein hunain yn flin yn nghylch pynciau duwinyddol. Gwneuthur yn iawn yw ein prif ddyledswydd ni; cyflawnu dyledswyddau heddyw a

dyledswydd pob dydd yn ei ddydd, dyna yw ein gwaith, a pheidio gorofalu, peidio pryderu am y dyfodol. Fel hyn y dywed yr hen lyfr etto, "Na *ofelwch* (hyny yw, yn ormodol) dros dranoeth, canys tranoeth a ofala am ei bethau ei hun." Cofiwn *haeddu*, ac yna yn ostyngedig hyderwn am gael.

A ydym yn cael fod beichiau bywyd yn drymion? yna, peidiwn a'u gwneuthur yn drymach trwy osod baich y fory ar gefn baich heddyw. Cariwn faich pob dydd yn ei ddydd, a pheidiwn myned i gwrdd â gofid na ddaw feallai byth i'n cyfarfod; a dwg hyny i ni lawer o esmwythyd. Yr oedd hen wr dall yn adrodd wrthyf y dydd o'r blaen sut oedd ef yn ceisio gwneuthur i fyny am y diffyg o weled, pan yn masnachu ychydig yn y dyddiau gynt lawr yn y wlad. Ceisiai llawer un gymmeryd mantais o'i anffawd. Un ddyfais oedd ganddo oedd holi o ba ardal y deuai y person, ac i ba enwad y perthynai, ac meddai yr hen wr (eglwyswr oedd efe ei hunan) "ni chefais fy nhwyllo erioed mewn Undodwr." Yn awr, dyma un pêth yn fy ngolwg i y dylai Undodwr bob amser geisio bod, yn onest ac yn gyfiawn; ac yr wyf yn taer ddymuno ar fod pawb yn y gynnulleidfa barchus a lluoscg bresenol yn ceisio cadw i fyny y cymmeriad gogoneddus hwn, Byddwch yn onest yn eich ymdrafodaeth â'r byd. Ceisiwch beidio dwyn anair ar enw da yr enwad y perthynwch iddo. Holl ddyledswydd dyn meddai y gwr doeth yw Ofni Duw a chadw ei orchymynion; meddai yr Iesu, Caru Duw a charu dyn; meddai Paul, Byw yn sobr, yn gyfiawn, yn dduwiol. Dyledswyddau heddyw, dyledswyddau y presenol ydyw y rhai hyn i gyd, dyledswyddau pob dydd fel mae y dydd yn dod.

Yr ydych wedi clywed ond odid am y ddau bren hyny, y pren Upas a'r pren Eucalyptus. Dau bren rhyfedd ydynt. Tyfa'r blaenaf yn nyffryn Java a'r olaf yn yr Eidal. Dywedir am y blaenaf ei fod yn gwenwyno yr holl awyr o amgylch iddo, ac yn gwenwyno pawb a'i cyffyrddant; tra mae yr olaf bob amser ac yn mhob man y planir ef yn puro yr awyr ac yn ei iachau. Yn debyg-i ba un o'r prenau yma y dymunwn ni fod? A fynwn ni fod yn brenau Upas, yn melldithio ac yn gwenwyno trwy ein hymddygiad drwg bawb a ddeuant i gyffyrddiad â ni, neu a fynwn ni fod fel y pren Eucalyptus yn fendith ac yn iechyd i bawb, yn arogl bywyd i fywyd i bob un a ddelo o fewn cylch ein dylanwad. Trwy fod felly y galluogir ni yn oreu i wynebu y dyfodol heb ofn a braw; trwy fyw felly y daeth y Dr. Watts yn alluog pan yn tynu at y terfyn ac yn gwynebu y cyfwng rhwng dau fyd, i ddywedyd "Yr wyf yn diolch i Dduw fy mod yn gallu myned i orphwys y nos, yn gwbl ddibryder pa un a fyddaf yn deffroi yn y byd hwn ynte yn y byd nesaf."

I derfynu, cofiwn mai y wers bwysicaf a gawn gan brif athrawon yr oes yw—gofalu am gyflawniad dyledswyddau y presenol, ac yna, mewn perthynas i'r dyfodol, peidio ofni, meithrin ffydd, cadw baner ein crefydd o hyd yn faner gobaith, a'i gadael i chwyfio yn uchel yn awyr rhyddid, lle yn unig y gellir dysgwyl cynnydd a gwir welliant. Ac yn awr, yr yspryd hwnw sydd trwy'r oesau wedi bod yn cynnal ac yn cadw plant y Tad Goreu a fyddo gyda ninau yn ein cynnorthwyo

heddyw, a geiriau y Salmydd yn ein calonogi: "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu, gorfoledded y ddaear, llawenyched ynysoedd lawer." Amen.

DEDDF A DADBLYGIAD.

I rai personau yn y dyddiau yma y mae y ddau air "Deddf" a "Dadblygiad" (*Law and Evolution*) yn esbonio yr oll ag sy'n bodoli. 'Does yna yr un mawredd, cywreinrwydd, prydferthwch, pleser, neu ddaioni yn un man o'r bydysawd rhyfedd yma nad yw y geiriau uchod, i'w meddwl hwy, yn cyfrif am dano. Cyfeirier eu sylw at y Nefoedd uwchben, a gofyner iddynt, "Beth sy'n dal y bydoedd aneirif yna ag sy'n hongian yn yr eangderau, a pheth sy'n peri fod pob un o honynt yn troi yn ei lwybr priodol ei hunan?" A'r ateb a geir fydd "Deddf." Cymmerer hwynt i lawr i gelloedd y ddaear yma i weled mor gywrain, doeth, a phrydferth, y mae gwres yr Haul yn yr oesau gynt wedi cael ei gadw yn yr ystorfeydd tanddaearol hyn, a holer hwy "beth achosodd i'r amrywiol lofeydd yna a ddefnyddir gan ddyn heddyw er ei gysur, i gael eu trysori mor ofalus?" Atebant, "trwy rym deddf y gwnaethpwyd hyn oll." Tyner eu sylw yn mhellach at y rhyfeddod, y prydferthwch, a'r cywreinrwydd sy n ganfodadwy dros holl wyneb y ddaear —at brydferthwch y blodeuyn, a chywreinrwydd a mawredd y peiriant anifeilaidd—peiriant sy'n annherfynol fwy cywrain nâ'r un peiriant o waith llaw dyn, a gofyner iddynt, "pa fodd y darfu i'r pethau yma ddyfod mor alluog ac addas i lanw eu lle?" Dywedant mai "dadblygiad sydd wedi achosi y cyfan." Os gofynir iddynt i esbonio bodolaeth dyn gyda'i alluoedd rhyfeddol; dywedant "fod y mater yn ddigon rhwydd, gan mai ffrwyth dadblygiad yw ef." Holwch, dadblygu o beth wnaeth ef, ac atebant "dadblygu o rywbeth yn is nag ef." Mynant i chwi gredu eu bod hwy wedi egluro y cyfan pan yn dywedyd mai wedi dadblygu o ryw greadur yn is nag ef mae dyn, a'r creadur hwnw o un yn is wedi'n.

Dywed yr Hindŵaid fod y ddaear yn sefyll ar gefn anifail, a hwnw ar gefn un arall, ac yn y blaen, a'r cyfan ar gefn pedwar elephant. Ni ddywedant ar beth y mae y pedwar elephant yn sefyll. Felly hefyd y gwna y bobl hyn esbonio y greadigaeth ryfeddol yma. Dywedant mai "deddf" sy'n dal pob dernyn o'r bydysawd annherfynol yn ei le priodol, a'r bydoedd aneirif yn iawn yn eu cylchdroadau. Ond ni ddywedant ar beth mai "deddf" yn ymddybynu, neu ffordd mae yn bossibl i gael "deddf" heb Ddeddf-roddwr. Honant mai ffrwyth "dadblygiad" yw'r greadigaeth yma fel y mae hi yn bresenol; ond ni esboniant ddechreuad pethau neu greadigaeth defnydd (*matter*). Meddyliant y gellir hebgor Creawdwr, gan nad yw ei law Ef yn weladwy yn uniongyrchol yn y cyfnewidiadau a'r dadblygiadau a gymmerant le yn y bydysawd yma. Gan fod bywydau newydd yn dyfod i fodolaeth, ac yn

dadblygu heb help uniongyrchol oddiwrth Dduw, tybiant fod y cyfan wedi dyfod heb gymhorth yr un Duw o gwbl.

Ychydig amser yn ol pan yn ymgomio â chyfaill ar y pwnc yma, gofynais, "Os damwain yw'r byd, paham na allasem greu byd arall, neu hyd y nod i roddi bywyd i wibedyn bach?" Atebai yntau, "fe allwn ni greu bywydau newydd trwy osod creadur difywyd i ddadfeilio yn yr awyr." Oddiwrth hyn mynai'r brawd gasglu mai peth hunangrëedig yw'r byd yma. Ond mae rhesymiadau o'r fath yma yn ddiwerth. Un peth yw dadblygu bywyd pan bo'r elfenau—y defnydd at hyny wrth law; ond peth arall yw gallu creu bywyd a chreu y defnydd hefyd. Pe bae y brawd yn gallu rhoddi bywyd i unrhyw greadur, *ac hefyd greu yr elfenau at ei waith*, buasai yn rhyw reswm dros i ni gredu fod y byd yma wedi creu ei hunan. Nid yn y "dadblygiad" o'r byd mae'r anhawsder mwyaf, ond yn y cread o'r elfenau ar y dechreu. Nid yw dweyd mai "dadblygiad" yw'r byd yn gwneyd dim ond symud yr anhawsder *step* nes yn ol; beth grëodd yr elfenau, a pheth achosodd iddynt i ddadblygu yw'r cwestiwn.

Meddai Mr. Herbert Spencer yn *Progress*, ar ol bod yn trin ar "ddadblygiad,"—"The foregoing generalizations apply not to the genesis of things in themselves, but to their genesis as manifested to the human consciousness. After all that has been said, the ultimate mystery remains just as it was. If, tracing back the evolution of things, we allow ourselves to entertain the hypothesis that all matter once existed in a diffused form, we find it utterly impossible to conceive how this came to be so. However, we may succeed in reducing the equation to its lowest terms, we are not thereby enabled to determine the unknown quantity." A chaniatau fod y syniad o ddadblygiad yn iawn, ymddengys i mi yn llawn mor, os nid mwy, angenrheidiol i gredu yn modolaeth Bod Hollalluog, er cyfrif am ddirgelwch a mawredd y byd yma, a phe bae y syniad o greadigaeth ddisymwth yn iawn; canys yn ein barn ostyngedig ni, mae'n llawn mor anmhossibl fod y byd yma wedi creu ei hunan mewn chwech mil neu chwech miliwn o flynyddau ag mewn chwech diwrnod. Ac fe ymddengys i ni yn ddoeth ac yn rhesymol i gredu mai "yr Arglwydd a wnaeth y nefoedd," ac mai "Efe a'n gwnaeth ac nid ni ein hunain," o leiaf i gredu hyn hyd nes y byddom yn gallu cyfrif am y dirgelwch anmherfynol a'n hamgylchyna ni yn mhob man. Hyd yma, cynnyddu a wna y dirgelwch—pa fwyaf y gwnawn astudio o weithredoedd natur, mwyaf o ddirgelwch a mawredd a ganfyddwn yno; pa bellaf y gwnawn dreiddio i'r nefoedd uwchben, neu i'r ddaear dan draed, mwyaf rhyfeddol, mawreddog, ac anesboniadwy yr â y cyfan o hyd. Yn sicr, y mae Atheistiaeth neu amheuaeth yn annheilwng o ddyn yn ngwyneb yr holl fawredd, prydferthwch, a'r dirgelwch sy'n ffynu yn mhob peth. W. P.

Cyfoeth a ennillir trwy boen, a gedwir gyda gofal, a gollir gyda galar. Gofalon cyfoeth a orweddant ar ddyn da yn drymach nag annghyfleusdra tlodi gonest.

CREFYDD Y DUC WELLINGTON.

(ALLAN O LYTHYR AT ESGOB EXETER, 1832.)

Yr wyf yn ddiolchgar iawn i chwi am eich llythyr. Mae yn ganmoladwy iawn ynoch, ac yn briodol iawn, i ysgrifenu at neb yn yr amserau hyn, ac yn neillduol ataf fi, ar ol cystudd mor drwm ag wyf wedi ddyoddef. * * *

Ond y peth yr wyf yn fwyaf neillduol yn awyddus i'w symmud o'ch meddwl yw y dyb fy mod i yn amddifad o un teimlad o grefydd. Os wyf felly, mae yn anfaddeuol ynof, gan fy mod wedi cael cyfleusderau i feddiannu, ac yr wyf wedi meddiannu cryn lawer o wybodaeth ar y pwnc.

Nid wyf yn gwneuthur llawer o *show* nac ymffrost ar un pwnc. Nid wyf wedi gwneuthur hyny erioed. Y canlyniad yw yn y dyddiau ymffrostgar presenol fod dynion wedi fy ngosod i lawr o bryd i bryd fel y dyn mwyaf anwybodus, a'r dyn cyhoeddus mwyaf anaddas yn fy amser, a hyny hyd y nod ar faterion yn dal perthynas à'm galwedigaeth, ar y rhai y gellid tybied fy mod oddiar gychwyniad fy ngyrfa wedi cael digon o brofiad.

Ac mewn bywyd annghyoedd, yr ydys wedi fy nghyhuddo o bob pechod a bai; a phan mae y rhai sydd yn byw gyda mi, ac a wyddant bob gweithred o'm heiddo, a braidd bob meddwl, pan mae y rhai hyn yn tystio fod y cyhuddiadau yma yn ddisail, yna dygir y cyhuddiad, "O, y mae yn ddyn heb un grefydd!" Fel yr wyf wedi dywedyd eisoes, nid wyf yn gwneuthur rhyw *show* mawr o ddim. Nid wyf yn ddyn y "Beibl Gymdeithas" o egwyddor, ac nid wyf yn gwneuthur arddangosiad rhwysgfawr o elusengarwch nac un rhinwedd arall, er fy mod yn credu, heblaw symiau anferth a roddir genyf at gannoedd a miloedd o achosion nad oes ganddynt un hawl arnaf, nad oes yr un *charity* o fewn cyrhaedd i mi, nad wyf yn gyfranwr ato, er yn argyhoeddedig, yn wir, yn gwybod am lawer o honynt nad ydynt ond *jobs* cywilyddus.

Y gwrthwynebiad nesaf yw, "Nid yw yn myned i'r Eglwys!" Pa bryd bynag a pha le bynag y dichon fy mhresenoldeb yn yr Eglwys ddylanwadu fel esiampl, yr wyf yn myned. Nid wyf byth yn absenol o'r gwasanaeth dwyfol yn Walmer, na phan b'wyf yn Hampshire, neu yn rhyw le arall lle byddai fy mhresenoldeb neu fy absenoldeb yn beth i dynu sylw.

Ond dylid cofio i mi ryw ddeng mlynedd yn ol gwrdd â damwain sydd wedi effeithio ar fy nghlyw, ac yn wir, nid wyf yn clywed dim o'r gwasanaeth ond cymmaint a wn ar fy nghof, a dim gair o'r bregeth.

Ac etto sylwer, y byddai rhaid i mi am ryw wyth mis o'r flwyddyn eistedd rhyw ddwy awr heb ddim ar fy mhen mewn Eglwys oer. Cawsai hyn yr effaith yn sicr o'm amddifadu o'm clyw yn gyfangwbl. Am beth amser darfu i mi fynychu y gwasanaeth boreuol yn St. James, yr hwn nid oedd yn parhau ond awr, ond cefais ei fod yn rhy oer i mi; ac mae yn wir nad wyf yn mynychu un gwasanaeth dwyfol yn un plwyf yn Llundain. Ond oddieithr y ddyledswydd hon, yr hon

nid wyf byth yn adael heb ei chyflawnu yn y wlad, nid wyf yn gwybod fy mod yn gadael un arall heb ei chwblhau.

Y mae lle i wella yn mhob dyn, ynof fi fel ereill; ac nid oes dim yn well tuag at gynnyrchu y dymuniad am gyrhaedd y cyfryw welliant nà llythyr tebyg i'r un a gefais oddiwrth eich arglwyddiaeth.

Wrth ei ateb yn y modd yr wyf wedi gwneyd, yr wyf yn gobeithio na fydd i chwi gredu fy mod yn gwrthod eich cynghor. I'r gwrthwyneb, yr wyf yn diolch i chwi am dano; ac yn sicrhau na fydd y drafferth a gymmerasoch wedi ei gymmeryd yn ofer. Ond os ydych wedi credu yr hyn yr ydych wedi ddarllen a chlywed am danaf, rhaid i mi ddywedyd fod yr adroddiadau hyny yn gwneuthur annghyfiawnder à mi. (1769—1852.)

C. L.

CANGEN ANFFRWYTHLAWN.

Pan fyddo dyn yn byw bywyd gogoneddus, yn meddwl meddyliau mawrion, yn gwneuthur pethau mawrion, yn dwyn cywilydd ar ddynion Cristnogol trwy brydferthwch a gras naturiol ei fywyd, ac etto yn gwadu pob cyssylltiad à'r cyff Cristnogol, yr wyf am gael gwybod sut y daeth i fywyd; ac os yw efe yn fab olyniaeth di-dor o weinidogion a dynion Cristnogol yn rhedeg yn union trwy lawer o genedlaethau, yna, yr wyf yn dywedyd fod hyny yn myned yn mhell i gyfrif am dano. Nid *graft* ydych, ond cangen naturiol o'r winwydden fawr. Mae yn wir eich bod yn alluog i fyw ar wahan oddiwrth y llinell neillduol Gristnogol yn y byd heddyw, ond y mae yn amheus iawn a allech cystal pe na byddai eich tadau wedi byw yn Eglwys Gristionogol y ddoe. Ac os oes rhyw ddyn yn y drefyma yn dywedyd wrthyf, "Nid wyf yn malio am Eglwysi ac addoliad; gallaf addoli gartref; ac yna os aiff yn y blaen i ddywedyd wrthyf sut oedd ei hen dad da, y diacon, yn arfer myned i'r Eglwys yn Lloegr Newydd, yr wyf yn tybied mai ychydig arian adawodd eich tad y diacon i chwi, ond y mae wedi gadael i chwi etifeddiaeth gyfoethog o feddwl a theimlad, sydd yn cyrhaedd hyd y nefoedd, ac yn perthyn yno. Y gwir yw, yr ydych yn aelod trwy enedigaeth o'r Eglwys Gristnogol. Yr ydych yn cyrhaedd yn ol i'r wir winwydden. 'Nawr, yr ydych wedi gwneuthur eich etifeddiaeth fechan o arian yn ffortun, a gwneled yr Arglwydd chwi yn fwy dedwydd am bob swllt yr ydych yn werth. Ond dywedwch wrthyf yn awr beth am yr etifeddiaeth arall? Ai dim ond yr *interest* yr ydych yn ei ddefnyddio, neu ynte a ydych yn gwario y *capital?* A ydyw y modd yr ydych yn byw yn debyg o derfynu fel y bydd gan eich plant y fath drysor o'r meddwl a'r teimlad sydd yn dwyn gogoniant ar yr enaid ag oedd genych chwi, neu, a wnewch chwi, wrth roi iddynt fwy o arian, roi iddynt lai o ras? A mwy nà hyny, frawd, gwnewch y mater yn fater personol. Dywedwch wrthyf beth y mae eich addoliad gartref yn ei wneuthur er iechydwriaeth y byd, pa ffrwyth da sydd yn deilliaw oddiwrtho, ac yna mi a ddywedaf yn gywir wrthych beth yw ei werth. Oblegyd os ydyw yn dwyn ffrwyth-

an da yr ysbryd a'r bywyd a ddeilliant yn wastad oddiwrth unrhyw wir addoliad o Ddduw, y mae eich llwybr y goreu nesaf at ymroddiad trylwyr at wasanaeth rhyw wir Eglwys neu fudiad Cristnogol, y cyfryw ag a wnai ateb dymuniad eich enaid a lles y byd. Ond os nad ydych yn eich neilldnedd yn dwyn y cyfryw ffrwyth, ac os ydych yn ymwybodol fod eich ymdrech yn myned yn wanach wanach mewn gwneuthur unrhyw beth sydd yn ardderchog ac yn dda, yna, nid wyf yn amheu nad ydych etto yn gangen o'r winwydden fawr! ond pob cangen nad yw yn dwyn ffrwyth, y mae Efe yn ei thynu ymaith."—ROBERT COLLYER.

YR OCHR EURAIDD.

Mae gorphwysfaoedd lu ar rodfa bywyd,
Pe gwnaem ond aros 'chydig i'w cymmeryd;
A melus-seiniau fyrdd o'r Wynfa dirion
Pe gwnaed eu deffro gan galonau blinion.
I'r enaid sy'n gobeithio ar bob amser,
Yr enaid heulog sydd yn llawn o hyder,
Mae'r borfa'n wyrdd, a'r blodau'n hardd ddysgleirio,
A hyny er i'r gerwin storm fygythio.

Os isel y cymmylau, gwell gobeithio,
A chadw i fyny'r llygaid yn ddiflino,
Pan fo'r cymmylau duon wedi hollti,
Cawn trwyddynt wel'd yr awyr las yn gwenu.
Ni fu'r un nos erioed heb ddydd yn canlyn,
Na hwyr erioed heb foreu yn ei ddylyn,
A'r awr dywyllaf, d'wed diareb hyny,
Yw'r awr yn union cyn i'r wawr i dori.

Mae geman fyrdd a mwy yn rhodfa bywyd,
Y rhai a basiwn yn ein gwag seguryd,
A mwy eu gwerth na hardd freninol goron,
Neu drysor mawr chwyddedig hen gybyddion;
Nid yw fe ddichon onid cariad plentyn,
Neu weddi mam i'r nefoedd fry yn esgyn,
Neu, ddichon, dim ond diolch calon lawen
Cardotyn am gael dracht o ddwfr mewn angen.

Myrdd gwell yw gwau i mewn yn ngwŷdd ein bywyd
Waith fyddo'n euraidd ac yn werthfawr hefyd,
A gwneyd ewyllys Duw á chalon barod,
A dwylaw ewyllysgar yma isod;
Na thori'n ddarnau'r brau arianaidd edau
Sy'n gywrain ddal yn gysswllt ein bywydau,
Ac wedi'n yn ein gofid fyn'd, ac eistedd,
A beio'r nefoedd am yr amryfusedd.

Gorphenaf 2, 1881. C. L.

SYRTHIAD Y DDALEN.

Y MAE rhoi tro trwy y caeau a'r coedwigoedd yn yr Hydref yn rhwym o greu rhyw feddyliau a theimladau sobr a difrifol yn meddwl y doeth a'r ystyriol. Y mae y dail llwyd a melyn yn syrthio yn araf oddiar y coed, neu feallai yn cael eu chwythu yma thraw gan yr awel ystormus. Gorweddant yn wywedig o dan ein traed, ac y mae y gwynt yn rhoddi ei seiniau melancolaidd o fiwsig trwy y cangenau noethion. Y mae yr holl olygfa yn ein hadgofio am farwoldeb a dadfeiliad, yr un fath yn union ag y mae y gwanwyn megys yn canu cân yr adgyfodiad. Y mae ein meddyliau yn cael eu troi yn naturiol at bwnc ein dadfeiliad ein hunain, ac ansefydlogrwydd a chyfnewidioldeb pob peth daearol, ac y mae y geiriau "Megys deilen y syrthiasom ni oll," yn dyfod adref at ein calonau gydag ystyr a nerth cynnyddol. Ydyw, mae ein bywyd yn myned heibio awr ar ol awr, a munyd ar ol munyd, yn gystal á phob dymuniad gwael ac uchelgeisiol, pob pleserau diraddiol a chyffroadau diamcan ein bodolaeth—bydd yr oll i ddiflanu ac i gael ei annghofio yn fuan iawn gan y byd. Y byd hwn a'i bethau sydd yn myned ymaith megys ar adenydd y gwynt, a bydd y gwrthddrychau y mae yr oll o honom yn ymserchu ynddynt i raddau mwy neu lai heddyw megys dail marw o dan ein traed yfory.

Ond er hyny, nid yw y fath ystyriaethau neu fyfyrdodau, er yn iachus ac yn naturiol i ddynion ar rai cyfnodau o'u bywyd, ddim yn seinio gwir nod addysg yr Efengyl. Daeth Iesu Grist i'r byd nid i ddywedyd wrth ddynolryw mai dail pydredig ydynt, ond i lofaru gan gyhoeddi gyda gorfoledd y ffaith fendigedig mai plant Duw ydynt ac etifeddion Anfarwoldeb, ac ni ddarfu i un wylofain broffwydol "fel hyn y dywed yr Arglwydd" gael ei chanlyn gan wylofain anobaith a digalondid ganddo Ef.

Gadawer i ni etto edrych ar y dail er cael allan a oes ganddynt ryw wers arall i'w dysgu i ni. Gwir yw fod y ddalen yn gwywo ac yn marw, ond nid cyn gorphen y gwaith y cafodd ei chreu i'w gyflawnu. Y mae wedi drachtio y gwlith a'r gwlaw fel oeddynt yn dyfod i lawr o'r nefoedd, ac y mae wedi cario y cyfryw yn ffyddlon i fân edafedd y goeden i gynnorthwyo ei ffurfiad a'i ffrydiau ffrwythau maethlon i ddyfod allan yn gnydiau toreithiog. Y mae wedi cysgodi ei gwreiddiau rhag pelydrau llosgadwy yr haul, ac y mae wedi bod yn gynnorthwyol i amddiffyn y dafnau dyfroedd a ddylifant yn nghyd i ffurfio y cornentydd bychain a redant i lanw yr afonydd mawrion. Ac yn awr, y mae ei hamser wedi dyfod i syrthio; ond cyn tori ei chyssylltiad á'r goeden, y mae megys yn gosod am dani ei hunan ei gwisg harddaf a thecaf o borphor, curaidd a llwyd, fel pe byddai yn fantell o lawenydd dros fywyd wedi ei dreulio yn dda, a'r gorpheniad o ddyledswyddau wedi eu cyflawnu gyda ffyddlondeb a dyfalbarhad. Hyd y nod wedi syrthio y mae ganddi ei gwaith i'w gyflawnu, er ei fod yn wahanol, oblegyd y mae yn myned i frashau y ddaear yn yr hon y tyfodd y pren, ac i gynnorthwyo yn y gwaith o chwyddo y blagur

cuddiedig sydd yn rhoddi addewid o ddail a blodau y gwanwyn nesaf. Gwir yw nad yw hi ddim ond dalen; ni all ymffrostio yn swyn a phrydferthwch y ffrwyth; ond ni allasai y ffrwyth dyfu o gwbl heb ei maeth a'i chysgod hi.

Pa gymmaint o fywydau dynol ellir eu cymharu â dail. Y maent yn cael eu treulio mewn unigedd; ni chlywir byth am eu henwau tu allan i'r cylch cyfyng a dinod maent yn troi ynddo yn eu pentref bychan eu hunain, neu hyd y nod gan eu cymmydogion sydd megys yn byw y drws nesaf iddynt. Nid ydynt yn cyflawnu unrhyw weithred orchestol; treuliant eu blynyddoedd a'u dyddiau mewn dinodedd, pasiant ymaith dros drothwy amser; nid oes ond ychydig yn gwybod dim am eu marwolaeth, a phan wedi eu gosod yn y ddaearen oer nid oes dim o'r fath beth â charreg fedd yn mynwent y Llan yn dynodi y fan y gorweddant. Dail dynoliaeth ydynt yn hytrach na'i ffrwyth, rhai o honynt wedi gwywo hyd y nod yn eu hymddangosiad, tra y mae ereill wedi aros yn hir ar ol, ac yna yn raddol wedi syrthio oddiar bren y bywyd. Ond er nad ydynt wedi seinio udgorn, nid yw eu bywyd wedi bod yn ofer yn ngolwg y Tad nefol. Os gallant ddywedyd yn unig fel y ddalen syml, "Yr wyf wedi cysgodi yr ysmotyn bychan o'r ddaear uwchlaw yr hwn yr oeddwn yn hongian oddiwrth wres angerddol yr haul a'i wneyd yn fwy gwyrdd a dysglaer trwy fy mhresenoldeb; yr wyf wedi cynnorthwyo i faethu fy narn bychan o goeden gref yr hon fydd ryw ddiwrnod i ddwyn ei rhan o waith yn rhyw fodd yn y byd; ac yr wyf wedi cyfarwyddo rhai defnynau o wlith a gwlaw ag ydynt wedi bod yn gynnorthwyol i feithrin un hedyn bychan da;" os gallant ddywedyd felly, byddant wedi cyflawnu y gwaith oedd amgylchiadau yn ganiatau iddynt. Gall eu bywydau o ran ymddangosiad allanol fod yn ddim ond megys dail, ond bydd eu gwaith yn gymmeradwy ganddo Ef heb Ewyllys yr hwn nid oes cymmaint ag aderyn y to yn syrthio. Ymdrechwn ddyfod yn debyg i'r ffrwyth euraidd; ond na wanobeithiwn os na allwn fod yn ddim ond megys dail ar bren y bywyd. Bydded pob gair bach o wirionedd, pob dyledswydd fechan wedi ei chyflawnu yn ffyddlawn, a phob gweithred o gariad i gael eu gwobrwyo. A phan ddel Hydref bywyd a phan fydd y ddalen ddynol yn syrthio, ni chaiff ofni angeu, ond yn hytrach caiff basio yn y blaen yn hyderus a llygaid ftydd ar yr amser gwynfydedig hwnw pan y bydd i'r llygradwy hwn wisgo anllygredigaeth, a'r marwol hwn i wisgo anfarwoldeb yn ngwanwyn gogoneddus a thragwyddol plant Duw.

C. L.

Daeth dau sparcyn o Lundain un tro ar draws bugail rhwng mynyddau Ceredigion, a chyfarchasant ef fel yma, "Mae genych olygfa hynod *fine* yma,—gallwch weled yn mhell iawn." "Wel oes yn siwr, a gallwn weled yn mhell iawn." "Ah! gellwch weled yr Amerig oddiyma, oni ellwch?" "Gallwn weled yn mhellach na hyny." "Sut felly?" "Aroswch dipyn bach nes chwytho'r niwl ymaith, a chwi a welwch y lleuad."

ADDOLIAD CYHOEDDUS.

Nid yw yr addoliad dwyfol cyhoeddus o'r Anwoledig ond Hollbresenol a'r Hollalluog yn perthyn yn neillduol ac yn arbenig i'r byd Cristnogol; ond pa le bynag y mae ffydd yn Nuw wedi bod, y mae temlau wedi eu hadeiladu yn y rhai y mae dynion wedi cydgyfarfod a'u gilydd i'w addoli Ef. Paham y maent wedi cydgyfarfod felly? Paham na fuasent yn ymfoddloni ar feithrin eu meddyliau a'u teimladau ysprydol, a chyflwyno eu diolchiadau ac anfon i fyny eu herfyniadau mewn unigedd. Bid sier, nid oes yr un addoliad yn fwy difrifol, na'r un gweddiau yn fwy dwys, nâ'r rhai sydd yn cael eu tywallt allan mewn unigedd, pan y mae yr enaid dynol wrtho ei hunan gyda Duw. Ond y mae y rheswm dros addoliad cyhoeddus yn amlwg ddigon. Y mae yn gyssylltiedig, neu yn rhan o'n natur i uno ag ereill pan y byddo unrhyw egwyddor nerthol yn cael ei dal yn gyffredin; unrhyw gynhyrfiad dwfn yn cyffroi llawer o eneidiau. Trwy nerth a dylanwad cydymdeimlad crefyddol, y mae meddyliau a chalonau yn cydfyned â'u gilydd yn yr un cyfeiriad, ac yn ceisio trwy ddatganiad cyffredin o'u meddyliau, teimladau, peryglon a gobeithion, i ddwfnhau eu ffydd a chynnyddu eu duwioldeb. Yn herwydd hyny cawn fod y Salmydd, yr hwn a fyfyriai ar Jehofah, ac a'i addolai yn ddirgel, yn cymmeryd hyfrydwch yn ei waith yn mynychu y tabernacl, ac yn uno a'i frodyr yn yr addoliad cyhoeddus. Pan oedd unwaith mewn gofid a thristwch dwys, ac wedi cael ei ysgaru oddiwrth ei hen gyfeillion gweddigar, y mae yn dwyn i'w gof y dyddiau dedwydd yn y rhai y gwasanaethai Dduw yn ei Gyssegr; y mae yn canu yn bruddaidd iawn,—"Pan gofiwn hyny tywalltwn fy enaid ynof; canys aethwn gyda'r gynnulleidfa, cerddwn gyda hwynt i dŷ Dduw, mewn sain cerdd a moliant, fel tyrfa yn cadw gwyl." Hynod mor addasedig yw rhai o'r Salmau yma i addoliad cyhoeddus, yn neillduol felly y ganfed Salm, yr hon sydd wedi ei harfer nid yn unig gan yr Iuddewon, ond hefyd gan Gristnogion o bob enwad, fel datganiad o'u meddyliau a'u teimladau mwyaf gwresog yn addoliad y Duw byw. "Cenwch yn llafar i'r Arglwydd, yr holl ddaear, gwasanaethwch yr Arglwydd mewn llawenydd; deuwch o'i flaen ef â chân. Gwybyddwch mai'r Arglwydd sydd Dduw; efe a'n gwnaeth, ac nid ni ein hunain; ei bobl ef ydym ni, a defaid ei borfa. Ewch i mewn i'w byrth ef â diolch, ac i'w gynteddau â mawl; diolchwch iddo, a bendithiwch ei enw. Canys da yw'r Arglwydd; ei drugaredd sydd yn dragywydd; a'i wirionedd hyd genedlaeth a chenedlaeth."

Nid oes genym un rheswm i amheu, ond pob rheswm i gredu, i'r Arglwydd Iesu fynychu y Synagog a'r Deml, nid yn unig i gael cyfleusderau i ddysgu y bobl, ond hefyd i addoli; ac y mae ffurf gweddi ein Harglwydd yn cynnwys addoliad unedig, pa un ai gan lawer neu ychydig. Mynych y gofidiwn am nad oes genym fanylion mwy cyflawn o fywyd ein Hathraw yn ei berthynas â'r dysgyblion; pe buasai y cyfryw yn ein meddiant, yn ddiau caem ar ddeall eu bod hwy yn uno

braidd yn feunyddiol mewn addoliad, ac fe ddywedir, megys yn ddamweiniol, eu bod wedi cyfarfod á'u gilydd ar y nos fythgofadwy hono cyn y croeshoeliad, a chadw gwyl y Pasg a sefydlu Swper yr Arglwydd, iddo Ef a'i ddysgyblion ganu hymn cyn iddynt fyned allan i fynydd yr Olewydd. Wedi'r adgyfodiad cawn fod y dysgyblion yn cydgyfarfod a'u gilydd i fyfyrdod a gweddi. Llanwai a gwresogai obeithion newydd a gwresog eu heneidiau, a meddianai ffydd newydd eu calonau. Y mae yr hwn a addolent gynt fel Jehofah, yn awr yn cael ei barchu a'i addoli fel *eu* Tad; ac y mae y datguddiad newydd yma o Dduw yn rhwym o fod wedi rhoddi tón newydd ac yspryd newydd i'w duwiolder. Yn cael eu meddiannu gan y fath deimladau ac yn cael eu hamgylchynu gan lawer o beryglon, buasent yn ceisio, trwy addoliad unol, i gadarnhau eu syniadau crefyddol, ac uno yn gadarnach nag erioed y rhwymau trwy y rhai oedd ffydd gyffredin wedi eu huno yn nghyd. Croesawid y Dydd Cyntaf o'r Wythnos, fel oedd yn dyfod o newydd ganddynt hwy, oblegyd y cyssylltiadau personol cyssegredig oeddynt wedi eu ffurfio ag ef. Nid yn unig ar y dydd hwnw, ond hefyd, fel oedd amgylchiadau yn caniatau, rhaid yw eu bod yn cydgyfarfod á'u gilydd yn ystod yr wythnos i oleuo, cysuro a dyddanu eu gilydd. Buasai y gobeithion gwerthfawr oedd yr Efengyl wedi ddeffroi yn eu calonau yn eu tynu felly at eu gilydd, ac yn peri iddynt ymgymmeryd a gwasanaeth crefyddol. Felly, cawn fod Cristnogion yn mhob oes o'r byd, gyda rhai eithriadau, wedi gwerthfawrogi y rhagorfraint o addoli Duw eu tadau, gyda'u brodyr, ac wedi cynnyddu a dwyshau eu ffydd, ac wedi cadw eu gwres ysprydol yn fyw. Pan mae y galon wedi ei thymheru a'i llanw gan deimladau crefyddol, y mae o angenrheidrwydd yn ceisio cymmundeb á chalonau ereill, a thrwy hyny yn rhoddi ac yn ennill cynnorthwy er gwasanaethu, yn rhyw fodd neu gilydd, yr unig wir a'r bywiol Dduw. Nid yn anfynych, yn hanes yr oesau gorphenol, y cawn allan fod dynion wedi cael eu darostwng a'u gwneuthur yn agored i'r erlidigaethau llymaf am broffesu ffydd oedd yn cael ei gwrthod gan y galluoedd llywodraethol. Felly yr oedd gyda golwg ar yr Huguenots yn Ffrainc, yn yr unfed ganrif ar bymtheg; felly yr oedd hefyd gyda golwg ar y Cyfammodwyr yn Scotland a'r Puritaniaid yn Lloegr, &c. Gallasent fod wedi gochelyd y dyoddefiadau i'r rhai oeddynt yn agored pe ymfoddlonent ar addoli pob un yn ei dý ei hun neu yn unigedd ei ei enaid ei hun. Ond pan oedd dynion yn dal y fath argyhoeddiadau eglur a nerthol mewn perthynas i Dduw, a Christ, a dyledswydd, a rhyddid crefyddol, ni allesid eu gosod i lawr na'u dystewi; chwilient a dymunent am gymdeithas rhai o'r un argyhoeddiadau a'u hunain; o ganlyniad cawn eu bod yn cyfarfod a'u gilydd lle y gallent, ar rai prydiau mewn goruwch ystafell, neu ysgubor, neu mewn ogof, er calonogi eu gilydd i uno mewn addoliad, a chadarnhau eu gilydd yn y santeiddiolaf ffydd. Darfu i rai o'r Puritaniaid alltudio eu hunain o wlad eu tadau, a gwynebu peryglon y moroedd mawrion o dan yr amgylchiadau mwyaf annymunol, nid er mwyn cyfoeth neu esmwythad neu enwogrwydd bydol, ond yn unig fel y gallasent, ar gost unrhyw

annghyflousdra neu aberth, gael rhyddid "i addoli Duw yn ol eirchion eu cydwybodau."

Os yw dynion yn ddiofal gyda golwg ar grefydd, yn derbyn golygiadau ydynt fwy neu lai yn Gristnogol, y rhai ydynt yn eu proffesu, ond y rhai ag y gellir dywedyd eu bod prin yn eu credu, gallwn ddysgwyl na fydd iddynt osod dim pwys ar yr addoliad cyhoeddus, ac anfynych fyned i dŷ gweddi. Gallant, mae yn wir, ymesgusodi ar y tir nad yw gwir grefydd yn gynnwysedig mewn mynychu un eglwys yn fwy nâ'r llall, ond yn nghyflwr y galon, ac yn nghymmeriad y bywyd. Gall dyn, meddant, fod yn wir ddysgybl i Grist heb fynychu unrhyw eglwys, neu gapel neu dŷ cwrdd. Y mae yn y gwrthwynebiad beth gwirionedd; gall fod gwir dduwioldeb a chymmundeb dwys â Duw yn y dirgel, ar y maes, yn y fro ac ar ben y mynydd. Y mae genym ni ddigon o enghreifftiau yn profi hyny. Nid yw ein cymmeriadau crefyddol yn dybynu yn hollol ar ein haddoliad cyhoeddus. Ar rai prydiau, yn wir, cawn ddynion yn talu sylw manwl ac arbenigol i'r gwasanaeth cyhoeddus yn yr eglwys, tra yn dangos yn ymarferol eu bod yn arwain bywydau anonest, annghymmedrol neu halogedig. Ond gyda golwg ar y sawl sydd felly yn esgeuluso tŷ Dduw, tŷ gweddi, gofynwn a ydynt felly yn ddynion duwiol, a ydynt yn gyson ac o ddifrif yn eu gweddiau dirgelaidd, ac ar yr un pryd yn dwyn cymmeriadau a bywyd Cristnogol? A ydynt felly? Credwn ni nad yw y rhan luosocaf o honynt ddim. Wrth gwrs, ni allwn ni, ac ni ddylem siarad yn haerdybiol neu mewn tôn anffaeledig! Ond ein profiad ni, hyd yma, yw y gwrthwyneb. Y mae ein profiad ni o ddynion yn ein harwain i'r casgliad fod yr hwn sydd yn talu fwyaf o sylw i'w weddiau dirgelaidd, a meddwl a chalon yr hwn sydd yn cael eu dylanwadu gan air ac yspryd Crist, yn talu mwyaf o sylw hefyd i'r addoliad cyhoeddus, ac yn teimlo fwyaf o ddyddordeb i'w gynnal i fyny a'i ledu yn y byd. Fel rheol gyffredin, i'r hon wrth gwrs y mae rhai eithriadau, gellir mesur y dyddordeb y mae dynion yn gymmeryd mewn crefydd wrth eu bywyd crefyddol, ac yn neilldual yr ymdrechiadau personol a wnant, a'r rhan y maent yn gyflawnu yn yr addoliad cyhoeddus.

Yn y rhan luosocaf o'n trefydd a'n pentrefydd, nid oes ond prin hanner, ïe, a llawer iawn llai nâ hyny mewn llawer o fanau, yn mynychu yr addoliad cyhoeddus. Beth am y lleill? A ydynt hwy yn absenoli eu hunain oblegyd fod yn well ganddynt addoli Duw yn y dirgel, ac nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu cynnorthwyo wrth uno ag ereill yn eu myfyrdodau ac yn eu haddoliad cyhoeddus? A ydynt hwy yn absenol o herwydd eu bod yn ddealltwriaethol uwch ac ysprydol well, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu niweidio yn hytrach nâ'u llesoli trwy y fath wasanaeth ag y gall unrhyw un o'r eglwysi ei roddi i Dduw y nef? Dichon y gellir dywedyd fod llawer o dlodion yn absenoli eu hunain o'r addoliad cyhoeddus oblegyd eu bod yn meddwl nad oes gwisgoedd priodol ganddynt i osod am danynt er bod ynddo. Lle y *mae* y rheswm yma yn bodoli mewn gwirionedd, gall fod yn rhwystr mawr a digonol, o dan rai amgylchiadau, ac yn her-

wydd hyny y mae yn un a ddylai deilyngu sylw y sawl y mae yn eu gallu i symmud ymaith y rhwystr. Ond yn y cyffredin, nid yw ond megys clogyn dros esgusodion ereill; oblegyd lle y mae gwir dduwiolder neu wir grefydd yn ffynu, a dyddordeb dwys mewn pethau crefyddol yn cael ei gymmeryd, ni fydd i'r fath rwystr brofi ei hunan yn attalfa anorchfygol i uno yn addoliad Duw gydag ereill. Y mae amgyffrediad iawn o'r ffydd Gristnogol, yn ei pherthynas â'r bywyd presenol a dyfodol, yn sicr o orchfygu a chario y fuddugoliaeth ar betrusder a balchder camsyniol, a dwyn hyd y nod y tlotaf i'r Tŷ hwnw yn mha le, o dan deimlad dwys o beryglon cyffredin a gobeithion cyffredin, y mae y cyfoethog a'r tlawd yn cydgyfarfod â'u gilydd ar yr un safle o gydraddoldeb. Tra mai y prif ddyben gan Gristnogion wrth uno yn yr addoliad cyhoeddus o Dduw ydyw cadw yn fyw grefydd yn eu heneidiau, ac ennill nerth adnewyddol i ymladd yn wrol frwydr bywyd, y maent, ar yr un pryd, yn gwneyd llawer er cynnorthwyo, dyddanu a chysuro eu cydaddolwyr. Trwy gydymdeimlad ydym yn cael ein dwyn at ein gilydd pan ydym yn ofni rhyw berygl cyffredin, neu pan y mae rhyw drallod neu helbul wedi ein gorddiwes. Felly hefyd ydym yn cael ein hatdynu at ein gilydd pan y mae rhyw ddaioni wedi deilliaw i ni, neu anffawd wedi syrthio i'n rhan, y mae y myfyrdod unol ar wirioneddau Duw, a gobeithion cysurlawn yr Efengyl yn bywiogi ffydd a duwiolder pawb.

Teimlai ein cyndadau wir werth yr addoliad cyhoeddus, ac oblegyd hyny yr oeddynt yn ei fynychu mor aml ag y medrent, ac yn derbyn lles a budd oddiwrtho; yr oeddynt yn addoli yr Arglwydd eu Duw yn mhrydferthwch santeiddrwydd ac os y gosodir llai o bwys a phris ar y cyfryw ar yr amser presenol nâ chan mlynedd yn ol, y mae hyny yn bod, nid oblegyd ei fod yn llai defnyddiol a gwerthfawr, ond oblegyd ein bod ni yn llai gwresog; nid oblegyd ein bod ni yn sefyll mewn llai o angen am dano gyda golwg i reoleiddio a santeiddio ein bywydau, ond o herwydd ein bod yn llai teimladwy o'n rhagorfreintiau, ac yn llai bywiog a mwy anystyriol yn nghylch ein cyfrifoldeb.

D.

Llyfrau da, maent yn gwmpeini gwerthfawr. Nid ydynt yn gofyn un sylw; ni achosant un draul; nid ydynt yn ceisio un adloniant; nid ydynt yn hawlio un amser; ond y maent bob amser yn barod i lanw y meddwl â meddyliddrychau o'r mwyaf dewisol, i roddi calondid i'r gwan, dyddanwch i'r trist, nerth i'r diffygiol, a gobaith i'r digalon ac anobeithiol. Gwneled pawb a allont i ledaenu eu dylanwad, fel y gallont fendithio y byd. Trwy y gelfyddyd o argraffu dygwyd llyfrau o fewn cyrhaedd y lluaws, ac y mae gwelliantau diweddar yn eu gwneuthur yn hoffder, yn addurn, ac yn ddyddanwch ein cartrefleoedd.

Allan o ddyoddefaint y mae'r eneidiau cryfaf wedi deilliaw, a cheir y cymmeriadau trymaf wedi eu nodi â chreithau; mae merthyron wedi dodi am danynt wisgoedd eu coroniad yn llewyrchu â thân, a thrwy eu dagrau mae y trist wedi cael golwg yn gyntaf ar byrth y nefoedd.—*Chapin.*

BETH GOSTIODD.

Yr oedd boneddwr un dydd yn rhoi tro trwy Regent's Park, Llundain, pan y darfu iddo gwrdd â hen wr, unig gartref yr hwn oedd y tlotty. Yr oedd yntau wedi dyfod allan am dro i anadlu ychydig ar yr awyr agored, a thynodd sylw y boneddwr.

"Wel, gyfaill," meddai y boneddwr wrtho, wrth ddechreu yr ymddyddan, "mae yn drueni eich bod chwi yn y sefyllfa yr ydych. A gaf fi ofyn pa mor hen ydych?"

Atebodd y dyn ei fod yn bedwar ugain.

"A oedd genych chwi ryw grefft cyn syrthio i dlodi?"

"Oedd yn siwr, saer oeddwn."

"A oeddech yn arfer diodydd meddwol?"

"Dim, dim, dim. Arferwn gymmeryd fy nghwrw, dim yn gryfach; dim ond ychydig ddiod."

"Pa faint o gwrw a arferech yfed mewn diwrnod?"

"Oh, tua gwerth chwech, fe allai."

"Am faint o amser?"

"Wel, am drigain mlynedd, fe allai."

Cymmerodd y boneddwr ei lyfr o'i boced, a dechreuodd wneuthur cyfrif, tra'r oedd ar yr un pryd yn cario'r ymddyddan yn mlaen â'r hen wr. A darfu i'r boneddwr ddangos y buasai yr arian a dreuliodd ar gwrw mewn trigain mlynedd, pe wedi eu cadw a'u gosod allan ar lôg yn dwyn i fewn iddo yn agos i ddau cant o bunau y flwyddyn neu yn agos i bedair punt yr wythnos ar gyfer ei gynnaliaeth.

"Gadewch i mi ddywedyd wrthych faint gostiodd galwyn o *whiskey*," meddai barnwr unwaith, ar ol bod yn treio *case*. "Gwnaeth galwyn o *whiskey* ddau ddyn yn fwrddwyr, dwy wraig yn weddwon, ac wyth plentyn yn amddifaid."

O, mae yn beth costus iawn!—*Dr. Richard Newton.*

PIGION ALLAN O WEITHIAU GEORGE ELIOT.

WEDI EU DETHOL GAN W. P.

Un o'r gwersi ag y mae menyw yn ddysgu fwyaf anfynych yw, peidio byth a siarad â dyn allan o'i hwyl neu ddyn meddw.—*G. E. in "Adam Bede," p. 33.*

Efallai na fedr gweddi ddwyn i ni arian, ond y mae'n dwyn yr hyn nas gall un arian ei brynu—gallu i gadw rhag pechod, a bod yn foddlawn i ewyllys Duw, beth bynag y bo Efe yn weled yn dda i anfon i ni.—*Seth, in "Adam Bede," p. 37.*

Pan bo marwolaeth, y Cymmodwr mawr, wedi dyfod, nid am ein tynerwch un amser ydym yn edifarhau, ond am ein creulondeb.—*G. E. in "Adam Bede," p. 44.*

'Does dim at benderfynu a'n hunain fod llawer o bethau yn y byd ag sy'n rhaid i ni fyw hebddynt. 'Dyw hi o un *use* edrych ar fywyd fel pe bae ond ffair Treddleston, lle mae dynion yn myn'd yn unig i gael gwel'd *shows* a chael *fairings*. Os gwnawn ni, fe gawn ei phrofi hi yn wahanol.—"*Adam Bede*," *p.* 144.

Byddai yn dda ini deimlo fod bywyd yn gyfrifiad nas gellir wneyd ddwywaith drosodd; 'does dim fath beth a gwneuthur IAWN i gael mewn gwirionedd, ddim mwy nas medrwch ddiwygio *wrong subtraction* trwy wneud eich *addition*.—"*Adam Bede*," *p.* 174.

Mae dyledion nas gallwn eu talu, fel dyled arian, trwy dalu yn *extra* am y blynyddau sydd wedi llithro ymaith.—*Godfrey Cass, in* "*Silas Marner*," *p.* 348.

'Dyw edifeirwch ddim yn cyfnewid yr hyn sydd wedi bod yn myn'd yn mlaen am un-flynedd-ar-bymtheg.—"*Silas Marner*," *p.* 339.

Mae'n rhaid i ni ddysgu gwel'd y DA ag sy'n mhlith llawer ag sy'n annymunol.—*Dinah, in* "*Adam Bede*," *p.* 442.

Yr oedd ei waith ef ("Adam Bede") wedi bod bob amser yn rhan o'i grefydd, ac yn gynnar iawn fe welai yn eglur fod saerniaeth (*carpentry*) dda yn cwyllys Duw.—*G. E., p.* 425.

Y mae gofid yn y byd, ac y mae pethau nas medrwn gyfrif am danynt a'u cyfiawnhau. A'r oll sydd gyda ni i wneyd yw *ymddiried*—gwneyd yr hyn sydd iawn mor bell ag ydym yn gwybod ac ymddiried.—*Dolly Windthrop, in* "*Silas Marner*," *p.* 289.

'Does dim yn y byd yn werth gwneyd cam er ei fwyn.—*Nancy Coss, in* "*Silas Marner*," *p.* 326.

Gohebiaethau.

HEN DDOSBARTHWR AT DDERBYNWYR YR YMOFYNYDD.

At Olygydd YR YMOFYNYDD.

SYR,—Caniateweh i mi, fel hen ddosparthwr, i ddweyd gair neu ddau mewn ysbryd caredig, addfwyn, a Christionogol, i'ch derbynwyr llusog.

Ni fu neb mwy balch nâ mi i weled YR YMOFYNYDD yn "adgyfodi" pa ddydd, a dywedais o'm calon "Hir oes iddo;" ac na fydded iddo farw o'r *darfodedigaeth* mwyach—hen ddolur ag sydd wedi ac yn ysgubo cymmaint o'n cyd-greaduriaid o'r ddaear yma.

Wrth ddwyn YR YMOFYNYDD allan, y mae yn wybyddus i ni oll fod traul mawr, a chryn drafferth a llafur ar ysgwyddau y Golygydd. Y mae yn *rhaid* iddo dalu yr Argraffydd. Byddai yn flin ac yn ofid mawr genyf i weled ein parchus olygydd o flaen Barnwr y *County Court* yn Aberdar, am feth-daliad argraffu YR YMOFYNYDD. Da chwi ynte, dderbynwyr, pa bryd bynag y gwelweh y clawr melyn, *cofiweh* fod taliad yn ddyledus y pryd hwnw, "a charem fod pob brys yn cael ei wneuthur i gael yr oll o'r ol-ddyledion i mewn." Os bydd bossibl, gwnewch hyn *ar frys*. Achuba hyn lawer o drafferth arnom fel dosbarthwyr. Pan y gwel y Peiriant-yriedydd (*engine-driver*) olew coch ar y rheilffordd, y mae yn arwyddocau iddo fod perygl; nid yw pethau yn ddyogel. Mae yr ager-beiriant yn chwibanu, ac maes o law gwelir

y perygl wedi ei symud ymaith gan y dyn sydd wrth y pwynt. Felly i ninau, fel dosparthwyr a derbynwyr, pan y gwelwn y clawr melyn yn nghylch Yr Ymofynydd, y mae rhywbeth i symud ymaith. Os settlwn â'r Golygydd, diflana y clawr melyn o'n meddyliau, a bydd y ffordd yn rhydd ac yn glir i ni oll. Gan ddymuno pob llwyddiant i'r Ymofynydd.

Yr eiddoch yn gywir,

Hen Ddosparthwr.

MEDDWDOD.

At Olygydd Yr Ymofynydd.

Syr,—Darllenais sylwadau "X. Y. Z" yn eich rhifyn Medi, ar "Demlyddiaeth Dda—ei sefyllfa bresenol yn Nghymru," gyda dyddordeb mawr, ac yr wyf o'r farn gadarn nad oes pechod yn waeth i iselhau cymmeriad dyn, a chynnydd crefydd Mab Duw, yn *fwy* nâ Meddwdod. Y mae yn ffiaidd ac yn adgas yn ngolwg y Creawdwr ei Hun. Os nad yw yn boddio Duw ynte, yr Hwn sydd mor dirion tuag atom, oni ddylem ni, fel darllenwyr Yr Ymofynydd, i droi ein cefnau at y pechod hwn, "a byw yn sobr yn y byd sydd yr awr hon?" Caiff dyn sobr ei barchu yn mhob man; ond am y meddwyn nid oes parch iddo mewn cymdeithas nac mewn un man arall.

Edrychwn o bob cwr, gwelir effaith meddwdod hyd y nod ar y plentyn yn y cryd, am fod y fam yn methu cael gwisgoedd priodol o herwydd meddwdod y gwr. Onid yw hyn yn druenus meddwl fod baban *di-bechod* yn cael ei gospi o herwydd ffolineb y tad? Ond, ysywaeth, y mae cannoedd o famau meddw i'w cael yn Nghymru! Y mae yn wrthun i weled dyn meddw yn ein heolydd, ond y mae yn fil waethach i weled benyw felly. Am ddweyd fod y ddiod gadarn yn gwneyd lles i ddynolryw, nid yw ddim ond ffolineb a sothach o'r mwyaf, a rhoddaf *challenge* i unrhyw un i brofi yn amgen. Y mae ffeithiau y meddygon yn ddigon i brofi i'r gwrthwyneb, ac nid yw yn fy amcan i ddyfynu rhai o honynt yn bresenol. Fy mwriad yn ysgrifenu yr ychydig linellau hyn yw, er eiu hanog ni, fel Undodiaid Cymreig, i ymuno â Byddin y Rhuban Glas (*Blue Ribbon Army*) neu ryw fyddin o'r cyffelyb; ac hoffem weled cangen o honi yn perthyn i bob capel o'n heiddo, ac yn enwedig yn ein Hysgolion Sul. A bid sicr y gweinidog i fod yn "gadben" ar y fyddin. Os na fydd y gweinidogion yn perthyn i'r fyddin, ni welir llawer o lewyrch; y mae eu presenoldeb hwy yn dylanwadu yn y cyfeiriad hwn. Rhaid i ni fyned gyda'r "amser." Y mae ein brodyr Trindodaidd yn gweithio yn egniol gyda y mudiad teilwng hwn. Nid yw yn perthyn i un enwad; y mae groesaw i'r Undodwr yn ogystal a'r Trindodwr—groesaw i bawb yn ddiwahaniaeth. Llwyddiant i'r achos dirwestol.

Daniel ab Ifan.

Manion a Hanesion.

Dowlais.—Dydd Iau, Hydref 12ed, cynnaliodd yr Eglwys ieuanc hon ei Gwyl De flynyddol yn Ysgoldy y Capel, pryd y cymmerwyd rhan o'r te a'r bara brith gan oddeutu wyth cant o ddynion. Yn yr hwyr cafwyd Cyngherdd arddercbog yn yr Oddfellows' Hall, gan Gor Undodaidd Aberdar, o dan arweiniad medrus Mr. D. T. Jones. Chwareuwyd ar y Perdoneg gan y Misses Griffiths a Williams, a llywyddwyd gan T. F. Harvey, Ysw. Teimla yr Eglwys yn ddiolchgar iawn i'r cyfeillion o Aberdar am eu cynnorthwy godidog iddynt.

HALE.—Yr oedd yn dda genym ddarllen yn yr *Altrincham Guardian* am Hydref 17, sylwadau ex-Mayor, Manchester, am y Parch. T. Lloyd Jones. Gwnaed hwy ar adeg sefydliad y Parch. J. E. Odgers, M.A., fel gweinidog yn Altrincham. Darlunir ef fel "un o'r mwyaf gweithgar a selog o ddynion, fel un o fil, neu o ddeng mil." Bydd Mr. Jones yn ymgymmeryd a'i ofal newydd yn Lerpwl tua dechreu'r flwyddyn newydd. Parhaed ei lwyddiant.

CAU Y TAFARNDAI AR Y SUL:—Un canlyniad i'r mesur hwn, meddai'r bobl, yw yr ychwanegiad yn rhai manau o ryw un rhan o dair at rif mynychwyr yr addoldai yn y gwasanaeth hwyrol.

A ydyw y milflwyddiant yn nesu? Danfonodd y blaid Eglwysig nifer o gynnrychiolwyr (*delegates*) i gyfarfod yr Annibynwyr yn Bryste (Hydref 12), i ddadgan eu cydymdeimlad. Nid yw y fath beth wedi dygwydd erioed o'r blaen.

Marwgofion.

Mai 13, 1879—Nid oedd yr YMOFYNYDD yn cael ei gyhoeddi pan y cymmerodd y farwolaeth ganlynol le, onite buasai wedi cael ei chofnodi yn brydlawn. Mary, anwyl briod Mr. David Jenkins, Blaenwaunganol, Llanwnen, a ymadawodd â'r fuchedd hon yn 52 oed. Yr oedd yn fam i bedwar-arddeg o blant, o ba rai y mae un-ar-ddeg yn fyw. Nid oedd ei hiechyd wedi bod o'r fath oreu am rai blynyddau, ond tybid ei bod o'r diwedd yn ymyl cael adferiad cyflawn. Yr oedd hyn yn llawenydd mawr i'w phriod a'i phlant a'i chydnabod; ond fel yr ystorm yn aml yn canlyn hinon felly y bu yma. Cafodd yr ymadawedig ei tharo gan *apoplexy* wrth fyned i'w gwely nos Sadwrn, ond parhaodd i anadlu hyd tua deuddeg o'r gloch y dydd Mawrth canlynol. Yr oedd yn fenyw hawddgar, wynebagored, a charedig, yn wraig ffyddlawn, yn fam dyner a gofalus; ac, er yn ddiau y perthynai iddi wendidau fel i holl ferched Adda, yn ddiau hefyd rhestrai gyda'r blaenaf o wragedd y gymmydogaeth mewn rhinweddau da. Claddwyd Mrs. Jenkins dydd Sadwrn y 17eg canlynol, yn Capelygroes, o'r hon gynnulleidfa yr oedd wedi bod yn aelod teilwng am flynyddau meithion. Pregethwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. T.

Medi 19eg, yn 25 oed, Mary, merch henaf y dywededig David Jenkins uchod o'i ymadawedig briod Mary Jenkins. Yr oedd y ferch ieuanc brydferth hon wedi bod yn dihoeni am flynyddau—yn gwywo'n raddol dan ymosodiad un afiechyd ar ol y llall. Cafodd y *Rheumatic Fever* dair o weithiau, yr hyn a ganlynwyd yn naturiol gan Glefyd y Galon, yna gan *Disease of the Kidneys*, ac yn olaf gan y Dyfrglwyf. Wedi marwolaeth ei mam, hi mewn ystyr oedd y fam yn y teulu; a dywedid gan rai oedd yn ei hadnabod, ei bod yn trefnu materion y teulu yn hynod gall a deheuig. Y dydd Gwener canlynol, claddwyd hi yn Capel-y-groes. Pregethwyd yn y tŷ boreu yr angladd, gan y Parch. T. T. oddiwrth y geiriau "Gwyn eu byd y pur o galon, canys hwy a welant Dduw." Y pennill canlynol a gyfansoddwyd ac a roddwyd i'r Ysgrifenydd gan dad yr olaf a phriod y blaenaf o'r ymadawedigion uchod:—

Gweled colli ein cyfeillion,
Gwel'd eu cuddio gan y bedd,
Dery glwyf drwy giliau'r galon,
Chwely'r fron fel awchus gledd;
Ond yn ngoleu'r gwir oleuni
Gwelwn ddydd, na fyddwn drist,
Pan gânt hwy a ninau godi,
Medd Efengyl Iesu Grist.

Mehefin 15ed, yn 13 oed, Thomas, mab Thomas Evans, Drefach, Llanwnen. Claddwyd ef yn mynwent Eglwys Llanwnen, a gwasanaethwyd ar yr achlysur yn y tŷ gan y Parch. John Davies, Alltyplaca.

Gorph. 10ed, yn 58 oed, ar ol blynyddau lawer o gystudd a ddyoddefwyd yn amyneddgar, Eleanor, gwraig John Jones, *Cowman*, Llanwnen. Claddwyd yn mynwent Alltyplaca, a gweinyddwyd yn y ty ac yn y capel gan weinidog y lle.

Medi 10fed, yn 52 mlwydd oed, bu farw Anne, priod Thomas Bowen, Maesyfelin, Llanwenog. Claddwyd hi y dydd Mercher canlynol yn nghladdfa'r Plwyf. Pregethodd y Parch. T. T. yn y ty cyn cychwyn o'r angladd tua'r fynwent. Yr oedd torf fawr wedi ymgynnull ar yr achlysur. Yr oedd yr ymadawedig yn fam i 15 o blant, ond nid oes ond pedwar o honynt yn fyw,

ac un o'r pedwar yn America. Dyna oedd yr ysgrifenydd yn glywed ddydd ei hangladd, sef, ei bod yn barchus iawn yn ei chymmydogaeth. Ymgyssured ei phriod a'i phlant.

Medi 17eg, yn 57 oed, Anne, gwraig G. Parry, Rhydfach, Llanwnen, a mam y Parch. Wm. Parry, Bridgend. Rhoddwyd ei gweddillion marwol i orphwys yn nhy ei hir gartref yn mynwent Alltyplaca, pryd yr anerchwyd tyrfa fawr ar yr achlysur gan y Parch. J. Davies.

Medi 18fed, yn 69 oed, yn dra ddisymwth, Mary, gweddw y diweddar David Jones, Blaencruser, Llanwnen. Aeth i'w gwely nos Sul gan fwynhau cystal iechyd ag a arferasai gael er's amryw flynyddau; ond pan awd i edrych am dani foreu dydd Llun, yr oedd wedi diane yn ddistaw a dilafur. Aeth trwy'r "cyfnewidiad rhyfedd" heb yn wybod. Claddwyd hi yn ymyl ei hanwyliaid yn mynwent Alltyplaca; a chyflawnwyd y gwasanaeth angladdol gan y Parch. John Davies. Ffarwel am dymhor gyfeillion, ni a ddeuwn ar eich ol yn fuan.

Medi 24ain, ar ol hir gystudd, yn 71 oed, Jane, gweddw y diweddar D. Jones, Ysw., Gellifaharen, Llandyssul. Yr oedd Mrs. Jones yn ferch i John Evans, Castellhywel, ac yn wyres i'r hybarch weinidog a bardd, D. Davis, o'r un lle. Mae ei chwaer henaf, Mrs. Evans, Tanycoed, yn fyw etto, ac hefyd eu brodyr oeddent yn henach nâ hi, sef, y Parch. D. Evans, B.A., Maesymeillion, a Benjamin Evans, Yswain, Cyfreithiwr, Castellnewydd-Emlyn. Mae ei phriod wedi ei blaenu er ys blynyddoedd lawer, ac o chwech o blant a anwyd iddynt nid oes ond un yn aros yn awr, sef, John Jones, Yswain, Cyfreithiwr, Llandyssul, a *Registrar* Llys Sirol Castellnedd. Gydag ymadawiad Mrs. Jones, teimlir yn ddiamheu fod lle gwag wedi ei adael yn ei theulu, yn gystal ag yn y gymmydogaeth, ac yn eglwys Llwynrhydowen, lle yr oedd yn un o'r aelodau henaf a mwyaf ffyddlon. Fe gofia llawer o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD, mai hi a osododd i lawr gareg sylfaen y capel newydd yn 1878. Yr oedd yr afiechyd a derfynodd ei bywyd wedi ei goddiweddyd y pryd hwnw; ond er mor analluog oedd i adael ei chartref, gwnaeth ymdrech i fod yn bresenol ar yr achlysur, i ddangos ei chydymdeimlad a'r brodyr a'r chwiorydd yn y Llwyn ar yr amser trallodus hwnw yn hanes yr achos. Yr oedd hi a'r diweddar weinidog y Parch. W. Thomas yn gyfeillion gwresog, ac yn deall ei gilydd yn drwyadl. Bu y cydymdeimlad a'r amddiffyn moesol (*moral support*) a ddarbyniodd ef oddiwrthi hi a'i theulu yn ddiamheu yn gymhorth ac yn galondid iddo yn y gwaith anhawdd yr ymgymmerodd ag ef, a'r amgylchiadau gofidus yr aeth drwyddynt yn ystod blynyddoedd diweddaf ei oes. Cymmerodd yr angladd le y dydd Mercher canlynol. Darllenwyd a gweddiwyd yn y ty gan weinidog y Llwyn, a chladdwyd yn nghladdfa y teulu yn mynwent Eglwys Llandyssul.

Barddoniaeth.

MR. ROLLINCE REES, LLANDEBIE,
Yn 84 mlwydd oed.

Ei ddyddiau a ddiweddwyd; nod henaint
Yn ei wedd a welwyd:
Rhyw angel gan Ion ddanfonwyd
I'w ol o'i lom anneddle lwyd.

'E garai'i Dduw, bu'n gywir ddyn;—rhin-
Goronai'i oes ddichlyn; [wedd,
Ni wnai friw, ac ni wnai frad
Y da hen-dad i undyn.

Pentregwenlais, Llandybie. D. IFOR DAVIES, *(Dyffrynfardd.)*

YMHOLIAD AM DEWI HEFIN.

Aeth ar wib, blwyddi blin,—a minau mewn
Mawr ymchwiliad diflin
Am waith awen gref Hefin,
Ddwyfol ei gerdd—fel y gwin.

A ydyw'r bardd ar dir y byw?—pa le?
Pa wlad mae'i gael heddyw?
Ai gan Ior fry'i awen orfyw,
Ry' ei chanig glir uwch ein clyw?

Pentregwenlais, Llandybie. D. IFOR DAVIES, *(Dyffrynfardd.)*

COFIWCH DDWEYD Y GWIR.

Be the matter what it may,&c.—*P. Phillips*

Boed y mater beth a fo
Cofiwch ddweyd y gwir;
Gwaith neu chwareu yn ei dro,
Cofiwch ddweyd y gwir.
Glynwch wrth y rheol hon,
Glynwch fyth â chalon lon,
Siarter bywyd yw o'r bron—
Cofiwch ddweyd y gwir.

Y mae'r gwir o swyn yn llawn,
Cofiwch ddweyd y gwir;
Celwydd sydd yn beth gwael iawn,
Cofiwch ddweyd y gwir;
Llwfrddyn brwnt yw hwnw sydd,
Er gochelyd cosp a fydd,
Yn dweyd celwydd noeth bob dydd,
Cofiwch ddweyd y gwir.

Os gwnewch gam, addefwch ef—
Cofiwch ddweyd y gwir;
'Nillwch fuddugoliaeth gref
Wrth ddyweyd y gwir.
'Rhwn a ddywed gelwydd, mae
Trwy ei ddrwg yn dyblu'r bai,—
Boed i ch' yn y gwir barhau—
Cofiwch ddweyd y gwir.

ENGLYNION

A gyfansoddwyd ar dderbyniad llythyr oddiwrth John Jones Davies (Ieuan Ddu), Provo City, Utah, U.S. America, wedi bod heb glywed oddiwrtho er ei ymfudiad i wlad y Gorllewin.

Fy nghefnder awen beraidd,—Ieuan Ddu,
Ddiwyd wr arabaidd;
O'r hoffus fardd seraffaidd,
Yn fyw can o nwyf ac aidd.

Hanesydd y cynoesau,—a llenor
Yn llawn gwybodaethau;
O nef ddianaf ddoniau--
Nid ofer i'n dy fawrhau.

Yr hoywgar cei'th fawrygu,—dy glod
Glan geidw arwyr Cymru:
Hyawdledd wnei anadlu,
Awenydd wyt Ieuan Ddu.

Rhyw ddystawrwydd was tirion,—fodolai
Fud helynt yn gysson,
Rhyngom a thi—i'n llenwi'n llon,
Hwyr lythyr, O! wele weithion.

Anniwall gyfaill 'e gofiaist,—am danom,
Do, yn Mhentre Gwenlais;
Draw i annghof oerllyd drais,
Dy Ewythr* ni adewaist.

Yn wahanol 'rym beunydd—o ran barn
Yn bur bynciau crefydd;
Ond etto'n foddion ni fydd,
I waelu'r serch at ein gilydd.

Amerig wlad a'i mawredd—enynodd
Anian dy frwdfrydedd,
Ond Ieuan gar hyd y diwedd,
Gwlad y gân a'i goludog hedd!

DYFFRYNFARDD.

Y CYSTUDDIOL.

Mae fy enaid wedi blino
Teithio dyrys anial fyd;
Teimla'i drigfa yn dadfeilio
Darnau'n cwympo i lawr o hyd;
Mae fy hyder bron diflanu,
Nid oes genyf gysur byw,
Na chyffeiriau i adferu
Iechyd i fy natur wyw.

Poeni 'rwyf mewn pabell briddlyd
A phob pleser ffwrdd yn ffoi;
Suddo'n ddyfnach mae fy mywyd,
Mewn afiechyd 'rwyf yn troi;
Nos a dydd dan bwysau trallod,
Ddwg arwyddion diwedd oes;
Gallu dyfais wedi darfod,
Rhaid gwynebu angau loes.

Etto enyd dylwn gofio,
Bod yn ufudd hyd fy medd—
Gan hyderu dof o hono,
I drigianu gwlad yr hedd;
Dichon daw y Duw sy'n gariad,
Yn y diwedd i fy hol;
O! mor felus fydd mynediad
Adref idd ei gynes gol.

Nis gall dolur mwy fy nylyn—
Dedwydd fydd fy enaid draw;
Syrthia saethau'r marwol elyn,
Obry yn y glyn islaw;
Mwy o fewn y ddinas nefol!
Caf feddiannu cartref gwell;
Ac i dreulio'r oes dragwyddol
Tufewn cylch y gwynfyd pell.

Cwmcych. JAMES HERBERT.

* Tad yr Awdwr.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, &C., ABERDAR.

AT EIN DERBYNWYR.

Taliadau :—R.J., Llanboidy; T.J., Alltyplaca; W.J.E., Brighton; W.W.T., Gellionen (rhan).

Dalier Sylw :—Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach na'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

Telerau :—Pris 3c., trwy'r post 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Ivy Cottage,
ABERDARE.

Y CYFARFODYDD CHWARTEROL.

Oherwydd i'r crefftwyr fethu gorphen y capel newydd yn y Cwrt-newydd, gorfuwyd ni i ohirio'r uchod hyd y Nadolig. Bwriedir yn awr eu cynnal dydd Mercher a dydd Iau ar ol y Nadolig, h.y., y 27ain a'r 28ain o Ragfyr.

Y trefniadau i aros fel y cytunwyd arnynt yn Pantydefaid. Byddwn yn ddiolchgar iawn am bresenoldeb cyfeillion ar yr achlysur. Od oes rhyw un neu rywrai nad ydym wedi cael cyfieusdra i ofyn eu hewyllys da at y capel, erfyniwn yn daer ac yn ostyngedig arnynt i chwilio rhyw lwybr i ddanfon i ni yr hyn a welont yn dda. Yr ydym yn awyddus iawn i beidio aros mewn dyled arianol.

Wedi gorphen y cyfan cyhoeddir llechres y tanysgrifwyr.

JOHN DAVIES, Gweinidog.

EIN LLYFR EMYNAU.

Mae wedi myned yn brin iawn a galw mawr am dano. Gwerthwyd yr argraffiad cyntaf mewn amser byr, ac mae y galwad am dano yn cynnyddu o hyd. Yr wyf am wybod gan hyny pa mor bell mae y cyhoedd yn addfed am argraffiad newydd. Cymmered y cynnulleidfaoedd ac ereill y mater dan eu hystyriaeth. Nid wyf yn ystyried y byddai yn ddoeth i wneuthur un cyfnewidiad mawr yn yr argraffiad newydd, ond carwn gael unrhyw awgrymiadau a welo cyfeillion yn dda eu hanfon. Yr wyf yn meddwl feallai y byddai ychwanegiad o ryw 30 o emynau i blant yn dderbyniol.

YN AWR YN BAROD, PRIS SWLLT,

LLAWLYFR YR UNDODWR:

GAN

ROBERT SPEARS, LLUNDAIN,

Wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg, trwy ganiatad yr Awdwr, gan

DAVID EVANS.

Dylasai y llyfr cynnwysfawr hwn fod yn llaw pob ymchwiliwr am y gwirionedd. Gellir cael unrhyw nifer o hono ond anfon at *David Evans, Bodawel, Llanwnen, Carmarthen.*

D.S.—Yr elw arferol i Lyfrwerthwyr ac ereill yn cymmeryd dwsin ac uchod.